**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C24/0900/39/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **28/10/2024** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanengan** |
| **Ward:** | **Abersoch gydag Llanengan** |
| **Bwriad:** | **Cais llawn i gynnal gwelliannau i'r safle i gynnwys man ddiwygiadau i leoliad a dyluniad adeilad gwasanaethau a ganiatawyd yn flaenorol ynghyd ac ymestyn lonydd presennol a gwelliannau amgylcheddol** |
| **Lleoliad:** | **Fferm Fronhyfryd, Bwlchtocyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7EU** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais llawn yn ymwneud â gwelliannau i safle carafanau teithiol a gwersylla presennol gan gynnwys diwygio lleoliad a dyluniad adeilad gwasanaethau o'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol ynghyd ac ymestyn lonydd mynediad o fewn y safle a chynnal gwelliannau amgylcheddol. Ni fydd cynnydd yn niferoedd o garafanau teithiol ar y safle o'r 24 a ganiatawyd yn flaenorol. Byddai'r carafanau yn parhau i gael eu lleoli o amgylch ffin y safle gerllaw gwrychoedd presennol sydd yn amgylchynu'r safle.

1.2 Fel rhan o'r gwelliannau bwriedir codi adeilad gwasanaethau newydd fyddai'n mesur oddeutu 22.8m x 7.5m ac yn 4m i'r brig. Bydd gorffeniad waliau allanol yr adeilad yn cynnwys byrddau pren llarwydden a'r to o ddalennau proffil metel llwyd. Oddi mewn, mi fyddai'n cynnwys cyfleusterau ymolchi a thoiledau i ddynion a merched ar wahân, adnoddau ymolchi/toiled anabl, ystafell deulu, ystafell offer, swyddfa ac ystafell olchi. Mi fyddai lleoliad yr adeilad yn rhannol dros y lleoliad fel a ganiatawyd yn flaenorol ond ymhellach i mewn i'r safle ac i ffwrdd o ffin presennol y safle. Y rhesymeg am yr ail leoli yw fod prif bibell garthffosiaeth yn croesi'r safle ac mi fyddai'r adeilad yn y lleoliad blaenorol i'w godi yn union dros llinell y bibell. Oherwydd y bibell, mi fydd un llain hefyd yn cael ei ail leoli tra fod trefniant lleiniau eraill hefyd yn cael eu diwygio fymryn a ffyrdd mynediad o fewn y safle yn cael eu ymestyn a/neu ddiwygio. Mae bwriad i blannu coed a gwrychoedd ychwanegol o fewn y safle tra fod rhai cynefinoedd i'w cadw i dyfu yn naturiol.

1.3 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored mewn lleoliad rhwng Sarn Bach a Bwlchtocyn. Mae yn safle oddi fewn i AHNE Llŷn a Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Mae'r safle wedi ei leoli yn union gyfochrog a ffordd ddi-ddosbarth sydd hefyd yn gweithredu fel llwybr cyhoeddus. Tua'r gogledd a'r gorllewin o'r safle ceir cwrs golff Abersoch a'r arfordir tu hwnt. I'r de o'r safle gwelir tai annedd yn wasgaredig o fewn safleoedd cymharol ynysig. Mae nifer o goed a gwrychoedd sefydledig ar hyd ffiniau'r safle. Ger ffin gogleddol y safle mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cors Llyferin ac mae rhan fwyaf dwyreiniol/gogledd ddwyreiniol y safle yn ymylu ac yn rhannol oddi mewn i ran o Ddarpar Safle Bywyd Gwyllt Mosaig Machroes (Gorllewin) tra fod rhan bychan o'r safle ger y ffin gogledd ddwyreiniol o fewn parth llifogydd.

1.4 Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol er cefnogi'r cais:

- Asesiad cynllun goleuo
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Asesiad Cychwynnol Ecolegol (sydd yn cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth sy'n gyfystyr a Datganiad Seilwaith Gwyrdd)
- Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol

1.5 Mae'r cais wedi ei ddiwygio o'i gyflwyniad gwreiddiol wedi derbyn sylwadau'r gwasanaeth Trwyddedu a gyfeiriodd at agosatrwydd rhai lleiniau at wrychoedd a pheryglon tân o ganlyniad.

1.6 Cyflwynir y gais i'r pwyllgor cynllunio oherwydd fod maint safle'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd yn fwy na'r hyn a ellir ei ystyried o dan y drefn ddirprwyedig.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PCYFF 2: Meini prawf datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
PS 1: Yr Iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig
AMG 1: Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Lleol
PS 19: Gwarchod a ble’n briodol gwella’r amgylchedd naturiol
TRA 2: Safonau parcio
TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 14: Yr Economi Ymwelwyr
TWR 1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr
TWR 5: Safleoedd carafannau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - 2024)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol: Cynllunio a chadwraeth natur

Nodyn Cyngor Technegol13: Twristiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais C17/0448/39/LL - Adeilad gwasanaethu newydd, amrywiol waith peirianyddol ynghyd a cynyddu lleiniau teithiol o 18 i 24 - Caniatawyd 07/07/17

3.2 Cais C05D/0148/39/TC - Tystysgrif defnydd cyfreithlon i gadw pebyll yn unol gyda chaniatâd cynllunio 3/4/857 a’r drwydded berthnasol sy’n caniatáu hyd at 70 pabell ar y tir ac fel safle carafanau teithiol yn unol gyda’r dystysgrif defnydd cyfreithlon 2/19/W.767 ac fel tir pori - Fron Hyfryd - Sarn Bach - Tynnwyd yn ôl.

3.3 Cais C03D/0234/39/LL - Cais i gyfnewid 70 llain pabell am 20 carafán deithiol a 40 pabell - Fron Hyfryd, Sarn Bach - Tynnwyd yn ôl.

3.4 Cais 2/19/W.767 - Tystysgrif defnydd cyfreithlon ar gyfer gosod 18 carafán deithiol yn ystod cyfnod 1 Ebrill i 31 Hydref ac ar gyfer storio 2 garafán deithiol rhwng 1 Tachwedd a 1 Ebrill - Caeau A.O. Rhif 291, 292, 293 Fron Hyfryd, Bwlchtocyn - Caniatawyd 07/11/95.

3.5 Cais 3/4/857 - Gwersylla mewn pebyll ar gaeau A.O. Rhif 292 a 293 yn Fron Hyfryd, Bwlchtocyn - Caniatawyd 28/09/65.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogir |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a dymunaf ddatgan na fwriadaf roi argymhelliad gan y tybir na fuasai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Mae gennym bryderon ynghylch y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os yw'r ddogfennau a nodwyd isod yn cael eu cynnwys yn yr amod cynlluniau a dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad penderfyniad.<br><br>Dogfen 1: YGC, Hydref 2024. Fron Hyfryd Caravan Park Preliminary Ecological Appraisal. Reference CPF12728.<br><br>Dogfen 2 : YGC, Tachwedd 2024. Construction Environment Management Plan (CEMP). Reference CPF12728–Fron Hyfryd CEMP.<br><br>Sylwer, heb gynnwys y dogfennau hyn, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn.<br><br>Safleoedd Gwarchodedig: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Mae safle'r cais yn ymyl SoDdGA Cors Llyferin. Rydym wedi ystyried y dogfennau a restrir uchod a gyflwynwyd i gefnogi'r cais hwn. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd, rydym o'r farn nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio'r nodweddion y mae SoDdGA Cors Llyferin o ddiddordeb arbennig ar eu cyfer, ar yr amod bod yr adroddiadau a restrir uchod wedi'u cynnwys yn yr amod 'rhestr gymeradwy o gynlluniau/dogfennau' yn yr hysbysiad penderfynu pe bai caniatâd ar gyfer y prosiect yn cael ei ganiatáu. Gall newidiadau i'r cynllun fel y cynigir ar hyn o bryd effeithio ar ein barn ni, a gallent fod yn deilwng o ymgynghoriad pellach gyda ni.<br><br>Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA): Mae'r cais wedi'i leoli o fewn 450m i ACA Pen Llyn a'r Sarnau. O'r wybodaeth a ddarperir, rydym o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y ACA. Gall ein cyngor newid os gwneir addasiadau i'r datblygiad arfaethedig cyn penderfynu'r cais. Os oes unrhyw newidiadau i'r datblygiad arfaethedig a allai effeithio ar ystyried effeithiau |

amgylcheddol posibl, ymgynghorwch â ni eto cyn i chi benderfynu ar y cais.

Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mater i'ch Awdurdod chi yw cynnal prawf Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Os byddwch yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle SAC/SPA/Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid gwneud asesiad priodol ar oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. Rhaid i chi ymgynghori â CNC at ddibenion yr asesiad a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnawn o fewn yr amser rhesymol a nodir.

Rhywogaethau â Warchodir: Nodwn fod yr adroddiad ystlumod a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (YGC, Hydref 2024) wedi nodi bod ystlumod yn bresennol ar safle'r cais. O'r wybodaeth a gyflwynwyd, rydym yn ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn cynrychioli risg is i ystlumod, fel y diffinnir yn ein dogfen arweiniol 'Ymagwedd Cyfoeth Naturiol Cymru at Ystlumod a Chynllunio' (2015). Caiff ystlumod a'u safleoedd bridio a'u mannau gorffwys eu gwarchod dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fodd bynnag, gan fod y datblygiad yn cynrychioli risg is i ystlumod yn yr achos hwn, nid ydym yn ystyried y bydd y datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar y gwaith o gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraethol ffafriol yn ei gwasgariad naturiol. Fodd bynnag, rydym yn cynghori bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio neu aflonyddu ar yr ystlumod neu eu safleoedd bridio a'u mannau gorffwys yn y safle hwn, ac felly rydym yn cynghori bod yn rhaid rhoi'r holl fesurau osgoi a lliniaru a ddisgrifir yn yr adroddiad ystlumod ar waith. Mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gynnwys yn y 'rhestr gymeradwy o gynlluniau/dogfennau' o fewn yr hysbysiad o benderfyniad os yw caniatâd yn cael ei roi ar gyfer y prosiect. Cysylltwch â ni unwaith eto os bydd gwybodaeth ychwanegol yn dangos nad yw'r achos hwn yn un risg is bellach. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio'r awdurdod lleol at lythyr y Prif Swyddog Cynllunio dyddiedig 1 Mawrth 2018, sy'n cynghori awdurdodau cynllunio lleol i atodi gwybodaeth o ran gofynion trwyddedau at yr holl ganiatadau a hysbysiadau lle mae'n debygol y bydd rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol ar y safle.

Tirlun: Mae'r datblygiad wedi'i leoli o fewn Tirwedd Genedlaethol Llŷn / Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Nodwn nad oes unrhyw wybodaeth am asesiadau tirwedd gyda'r cais ac felly, rydym yn tybio bod eich Awdurdod wedi sgrinio'r cais a daethom i'r casgliad bod unrhyw effeithiau ar dirwedd yn annhebygol ac mae'r cynnig yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

Dŵr Cymru: Cyngor safonol parthed materion draenio a lleoliad pibell yn croesi'r safle.

Uned Trwyddedu:

Mae lleoliad yr garafán arfaethedig yn dangos y bydd wedi ei lleoli yn agos i wrych. Mae gosodiad hyn yn groes i amod trwydded ag yn creu risg o dan ledaenu. Mae amodau trwydded yn argymell bod 3 medr o led oddi wrth unrhyw ffin / gwrych.

Ail ymgynghori

Cyngor safonol ynglŷn a materion yn ymwneud thrwydded y safle.

Uned Bioamrywiaeth:

Mae'r datblygiad hwn yn union ger SoDdGA Cors Llyferin. Rwyf yn argymell bod byffer rhwng y siales/carafanau a'r SoDdGA o 10 metr o leiaf (gweler y llun o'r awyr isod a'r llinell werdd); fodd bynnag, gan fod y carafanau presennol eisoes wedi'u lleoli yn agosach (un yn llai na 3 metr) at y SODdGA, mae'n bosib y byddai'n afresymol gofyn i'r rhain gael eu symud ymhellach oddi wrth y SoDdGA. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Adroddiad Ecolegol gan YGC ac rwyf yn cadarnhau fod hwn wedi cael ei wneud i safon dda. Rwyf yn argymell amod cynllunio bod y datblygwr yn rheoli a cheisio cael gwared ar blanhigion ymledol anfrodol megis y Ffromlys Chwarennog. Dengys y cynlluniau arfaethedig y bydd y glaswelltir presennol ar y safle yn cael ei gadw; fodd bynnag, hoffwn gynnwys yr amod isod i sicrhau hyn: Ni ddylid newid y glaswelltir drwy ychwanegu gwrtaith, aredig neu hadu. Rwyf yn croesawu'r cynlluniau yn cynnwys nodweddion bioamrywiaeth a phlannu coed brodorol. Nid oes gen i unrhyw wrthwynebiad.

Uned Hawliau Tramwy:

Heb eu derbyn

Uned AHNE:

Heb eu derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ond yn debygol o'u derbyn yn ddiweddarach ac felly fyddai'n bosib eu cynnwys ar y ffurflen gwybodaeth hwyr.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd 1 llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Mae'n ymddangos bod y gwaith arfaethedig ar y safle gwersylla yn debygol o gynyddu nifer y lleiniau tymhorol i dwristiaid yn yr ardal. Fy mhryder yw na fydd y carafanau hyn yn cael eu symud o'r safle carafanau yn ystod misoedd y gaeaf, fel sydd wedi digwydd gyda llawer o safleoedd carafanau eraill yn Sarn Bach a Chilan dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig eleni.

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae polisi TWR 1: Atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr, o'r CDLl yn datgan y cefnogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau presennol cyn belled â’u bod tu mewn i’r ffin ddatblygu.

Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i’r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy’n cynnwys yr hyn a ganlyn fydd yn cael eu caniatáu:

1. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o’r blaen, neu bresennol eraill sy’n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth bresennol, neu
2. Ailddefnyddio adeilad/(au) presennol neu safle sydd a chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth bresennol, neu
3. Datblygu gweithgaredd sy’n gyfyngedig i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol neu ei agosatrwydd i’r atyniad y mae’n gysylltiedig ag ef.

Bydd gofyn i’r holl gynigion gydymffurfio gyda’r holl feini prawf canlynol:

i. Mae graddfa, math a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn addas i'w osodiad trefol/gwledig;
ii. Mae’r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad;
iii. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu’r ystod o gyfleusterau yn ardal y Cynllun;
iv. Mae’r bwriad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai yna gyfleoedd gyflogaeth leol.

Lle y bo'n briodol, gellir cael mynediad at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

5.2 Fe welir o'r hanes cynllunio perthnasol fod hawl ar gyfer lleoli 24 carafán deithiol ar y safle gyda hawl hefyd i leoli 70 pabell. Nid yw’r cais presennol yma yn newid y sefyllfa o safbwynt yr hawl i ddefnyddio’r safle ar gyfer pebyll na'r niferoedd o garafanau fel a ganiatawyd yn flaenorol. Byddai’r bwriad felly yn cadw’r niferoedd o garafanau teithiol i 24 a 70 o bebyll. Ymysg y gwelliannau a gynigir, mae bwriad i adeiladu adeilad gwasanaethu mewn lleoliad newydd o'r hyn a ganiatawyd ynghyd a chamau i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwella tirlunio o fewn y safle. Mae'r newid yma ynghyd a newidiadau eraill fel a fwriedir yn is raddol i ddatblygiad y safle ac yn cyfrannu tuag at edrychiad o safon i safle o'r fath.

5.3 Mi fyddai’r adeilad arfaethedig yn cael ei wynebu ar y waliau allanol gyda byrddau pren a’r to o liw llwyd. Ystyrir y byddai’r adeilad newydd yma yn gwella edrychiad y safle a hefyd yn fodd o wella’r cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr y safle. Ystyrir fod dyluniad yr adeilad gwasanaethau arfaethedig yn dderbyniol ac yn gweddu i’r ardal. Ystyrir hefyd fod y deunyddiau arfaethedig yn dderbyniol. Byddai creu’r lonydd mynediad o fewn y safle hefyd yn fodd o wella ansawdd y safle o safbwynt y defnyddwyr. Bwriedir gorchuddio’r traciau gyda gwastraff llechi. Credir felly o ystyried natur a graddfa'r cynnig presennol ynghyd a'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol, fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion polisi TWR 1.

5.4 Er nad yw polisi TWR 5 ar un llaw yn ymddangos yn gwbl berthnasol gan mai cyfeirio at safleoedd newydd yn bennaf ond cyfeirir hefyd at estyniadau a'r angen i sicrhau fod datblygiadau yn anymwthiol o fewn y dirwedd leol. Fel sydd wedi ei nodi, mae tyfiant naturiol presennol yn amgylchynu'r safle ag o ystyried graddfa a ffurf y newidiadau a fwriedir, ni chredir y byddai yn ddatblygiad anymwthiol o fewn y safle a'r ardal oddi amgylch. Mae maen prawf 4 o’r polisi yn cyfeirio at yr angen i gyfleusterau atodol fod yn gymesur a graddfa’r datblygiad a bod yr angen ar

eu cyfer wedi eu profi. Gweler yn yr achos yma fod y safle fel ag y mae heb unrhyw gyfleuster ffurfiol ac felly gan fod defnydd y safle wedi ei sefydlu, y byddai'n rhesymol fod adnoddau cysylltiol ar gael i'w wasanaethu. Credir fod yr adeilad yn rhesymol o ran ei faint ac yn addas o ran ei leoliad, maint a gorffeniad a'i fod trwy hynny yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 4 o bolisi TWR 5.

5.5 Yn unol gyda maen prawf 2 o bolisi TWR 5, ni fydd gormod o lecynnau caled. Hefyd, mae modd rheoli defnydd y safle trwy osod amodau i gydymffurfio gyda meini prawf 6 a 7. Credir fod egwyddor y bwriad felly yn gwbl dderbyniol y safbwynt gofynion perthnasol polisi TWR 5.

**Mwynderau gweledol**

5.6 Byddai'r newidiadau arfaethedig yn gymharol fychan yng nghyd destun y safle a'r hawl blaenorol a roddwyd. Mae dyluniad a maint yr adeilad gwasanaeth yn rhesymol ac yn gweddu i ddefnydd safle o'r fath, credir y byddai'r holl newidiadau yn dderbyniol ar sail gofynion perthnasol polisi PCYFF 3. Ni ystyrir fod y safle'n rhy amlwg nac ymwthiol yn y dirwedd leol gan fod ffiniau'r caeau wedi eu hamgylchynu gyda gwrychoedd a choed aeddfed a sefydledig sy'n gweithredu fel sgrin naturiol. Yn ogystal, nodir bwriad i gynnal tirlunio ychwanegol trwy blannu coed a gwrychoedd newydd ar y tir, ac er nad yw manylion y math o blanhigion i'w plannu wedi ei gynnwys, credir y byddai'n rhesymol ategu amod safonol i gytuno'r manylion hyn cyn gweithredu'r caniatâd. Ystyrir fod effaith weledol y safle wedi ei gyfyngu yn eithaf agos i'r hyn ellir ei weld o'r ffyrdd a'r llwybrau yn union gerllaw'r safle i'r gorllewin a'r de a hynny rhwng coed a gwrychoedd presennol. Er y gall y safle neu rannau o'r safle fod yn weladwy o'r mannau hynny ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o greu nodwedd ymwthiol nac amlwg yn y dirwedd sydd o fewn dynodiad yr AHNE. Credir y byddai ffurf y safle a'r tirlunio naturiol yn ymgorffori'r newidiadau heb amharu ar yr AHNE ac felly yn dderbyniol o safbwynt polisi AMG 1.

5.7 Yn yr un modd, lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. O ran lleoliad a maint y bwriad, ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi AT1.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.8 Mae'r safle wedi ei leoli y tu allan i unrhyw ffin ddatblygu gyfredol ac felly yng nghefn gwlad gyda tai preswyl yn wasgaredig yng nghyffiniau'r safle. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i amlwg fwynderau'r gymdogaeth leol o ran materion yn ymwneud a phreifatrwydd / gor-edrych. Defnydd tymhorol fyddai i'r safle rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref ac felly yn sgil hyn byddai'r defnydd o'r safle yn un tymhorol gan na chaniateir i garafanau gael eu lleoli ar y tir trwy gydol y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu na fyddai dim newid i fwynderau'r trigolion cyfagos y tu allan i'r tymor meddiannu. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol amlwg i fwynderau'r gymdogaeth leol ac ystyrir y bwriad yn felly dderbyniol o safbwynt gofynion perthnasol polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3.

**Materion Ieithyddol**

5.9 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol.

5.10 Nodir fod yna rhai mathau penodol o ddatblygiadau ble fydd gofyn i’r bwriad fod yn cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae’r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o’r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o’r CCA. O safbwynt y mathau o ddatblygiadau dan sylw, nodir y canlynol: Nid yw’r bwriad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Serch hynny mae Atodiad 5 y CCA yn nodi y dylai pob datblygiad tai, manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i’r iaith.

5.11 Gan na fuasai’r datblygiad hwn o ran yr hyn a fwriedir yn cyrraedd y trothwy o fod angen asesiad ieithyddol ffurfiol nid oes angen datganiad Iaith Gymraeg gyda’r cais. Ni ystyrir y byddai’r datblygiad bwriadedig yn debygol o gael effaith andwyol ar yr Iaith yn sgil y bwriad a trwy osod amod i sicrhau y defnyddir enw Cymraeg a gosod arwyddion dwyieithog, ystyrir ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion polisi PS1 o ran hynny.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Ni fydd newidiadau i’r ddwy adwy bresennol i mewn i'r safle. Mae’r tir yn wastad ac ni chredir fod unrhyw rwystr amlwg yn bodoli o ran sicrhau mynediad hwylus a hygyrch i ystod o ddefnyddwyr y math yma o safle. Mae gosodiad agored o fewn y safle yn dangos y byddai modd symud oddi amgylch yn weddol ddi-rwystr ac fe welir fod adnoddau yn cael eu darparu yn yr adeilad newydd i ddefnyddwyr anabl gyda mynediad ato ar lefel gwastad a hygyrch ac yn hynny o beth, byddai gwelliant amlwg o ystyried fod yr adnodd yma yn cael ei ddarparu. Mae’r ffordd sy’n arwain tuag at y safle yn ffordd wledig ddi-ddosbarth ac yn gymharol gul. Er hynny, ni ystyrir y byddai'r newidiadau fel a fwriedir yn newid y sefyllfa o ran mynediad i raddau ychwanegol o'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd. Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i’r bwriad ac felly ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran gofynion perthnasol polisïau TRA 2 a TRA 4.

**Materion bioamrywiaeth**

5.13 Mae’r safle yn ffinio gyda SoDdGA Cors Llyferin ac mae rhan o’r safle yn ffurfio rhan o Ddarpar Safle Bywyd Gwyllt. Derbyniwyd sylwadau’r Uned Bioamrywiaeth ar y cais sydd yn nodi nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad. Mae CNC yn nodi fod ganddynt bryderon ynghylch y cais fel y'i cyflwynwyd ond y byddant yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os yw dogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais yn cael eu cynnwys yn yr amod cynlluniau a dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad penderfyniad sef:

Dogfen 1: YGC, Hydref 2024. Fron Hyfryd Caravan Park Preliminary Ecological Appraisal. Reference CPF12728.

Dogfen 2 : YGC, Tachwedd 2024. Construction Environment Management Plan (CEMP). Reference CPF12728–Fron Hyfryd CEMP.

Trwy wneud hyn, mae CNC *“o’r farn nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio'r nodweddion y mae SoDdGA Cors Llyferin o ddiddordeb arbennig ar eu cyfer, ar yr amod bod yr adroddiadau a restrir uchod wedi'u cynnwys yn yr amod 'rhestr gymeradwy o gynlluniau/dogfennau' yn yr hysbysiad penderfynu pe bai caniatâd ar gyfer y prosiect yn cael ei ganiatáu”.*

5.14 Gwelir o’r cynlluniau a gyflwynwyd fod gwelliannau bioamrywiaeth i’w cynnal ar draws y safle gan gynnwys plannu coed a gwrychoedd, gadael i rai ardaloedd o gynefinoedd naturiol i dyfu’n naturiol a gosod blychau adar, ystlumod a phryfetach ar yr adeilad newydd yn ogystal ag yn wasgaredig ar hyd ffiniau’r safle. Ystyrir felly y byddai'n rhesymol cynnwys amodau i sicrhau fod datblygiad y safle yn cael ei gynnal yn unol a'r mesurau a'r argymhellion fel a nodir yn y dogfennau yma (gyda'r ddogfen ecolegol yn cynnwys gwybodaeth ynghlwm a'r hyn sydd yn arferol yn rhan o Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd) ac o ganlyniad, credir y byddai'r bwriad yn dderbyniol o safbwynt gofynion perthnasol polisïau AMG 5 a PS 19 ynghyd a phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud a seilwaith gwyrdd a’r dull fesul cam.

5.15 Gan fod y safle wedi ei leoli o fewn oddeutu 450m i ran agosaf Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a’r Sarnau i gyfeiriad y gogledd ddwyrain, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yw'r Awdurdod Cymwys at ddibenion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fel y cyfryw, ni ddylid cytuno i unrhyw gynllun neu brosiect oni bai bod sicrwydd na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd yr ACA. Mae'n ofynnol i'r ACLl gynnal prawf o effeithiau sylweddol tebygol (TLSE) ar gyfer yr ACA, sy'n ofynnol o dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r bwriad ar gyfer cynnal newidiadau i safle gwersylla a charafanau presennol, ac i'r perwyl hyn ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi cynnydd uniongyrchol o ganlyniad i’r newidiadau yma ar faterion megis dŵr ffo yn llifo o’r safle tuag at yr ACA. Ystyrir y byddai'r bwriad yn cynnig gwelliannau cymharol fychan i'r sefyllfa bresennol ac na fyddai canlyniadau’r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar yr ACA yn yr achos yma.

**Yr ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.16 Cydnabyddir fod pryder wedi ei amlygu yn ystod cyfnod ymgynghori'r cais sydd wedi nodi na fydd carafanau yn cael eu symud o’r safle yn ystod misoedd y gaeaf ac y byddai cynnydd yn y nifer o garafanau tymhorol yn yr ardal leol. Gweler o’r hanes cynllunio, fod defnydd y safle yma wedi ei sefydlu eisoes ac felly ni fyddai’n safle cwbl ‘newydd’ fel y cyfryw ac mae posib rheoli niferoedd trwy amod. Oherwydd fod bwriad i gynnwys amod sy'n cyfyngu cyfnod defnydd a storio carafanau ar y safle, nid yw'n ddisgwyliedig fod carafanau yn cael eu cadw yma y tu allan i'r cyfnodau fel a nodir. Pe byddai'r safle yn gweithredu trwy dorri'r amodau yma, yna mae proses gorfodaeth yn gallu ymdrin a'r mater er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion yr amodau yma.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried graddfa’r cais, yr hanes cynllunio ac ystyriaethau materol megis lleoliad ynghyd a’i nodweddion naturiol presennol ni ystyrir fod y safle yn ymwthiol yn y dirwedd ac ni ystyrir ei fod yn debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol yr AHNE a'r ardal yn gyffredinol. Ni ystyrir y byddai yn amharu ar ddiogelwch ffyrdd nag yn cael effaith andwyol ar fwynderau’r gymdogaeth leol. O ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol ynghyd a'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan gynnwys gwrthwynebiad, credir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn unol a gofynion perthnasol polisïau’r CDLl fel a nodir uchod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda cynlluniau
3. Cynnal y datblygiad yn unol ac adroddiad ecolegol
4. Cynnal y datblygiad yn unol a Chynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol
5. Cynnal y datblygiad yn unol a chynllun goleuo
6. Cyfyngu niferoedd carafanau
7. Cyfyngu cyfnod defnydd y safle
8. Tynnu pob carafán o'r safle y tu allan i gyfnod defnydd y safle
9. Cyfyngu storio carafán/cwch/cerbyd tu allan i'r lleiniau ffurfiol
10. Cyfyngu defnydd y carafanau i ddefnydd gwyliau yn unig
11. Arwyddion dwyieithog
12. Enw Cymraeg
13. Deunyddiau.
14. Cynllun tirlunio
15. Materion draenio